Pris: 50c

# Papur Pawb

Tachwedd 2014 Rhif 403



Gweler tud. 4

tud 3 Pobl a Phethe
tud 10 Cofio o'r Newydd
tud 11 Y Gair Olaf
tud 12 Hanner Marathon

## EI AMAU O YSBÏO

**Gwelwyd trysorau lu yn arddangosfa'r prosiect Cofio a Myfyrio'r Rhyfel Mawr yn Neuadd Tal-y-bont. Anodd dewis ond dyma'r stori arbennig tu nol i ddau o'r creiriau.**

Canolbwynt yr hanes cyntaf yw'r Preifat John M Davies gynt o'r Free Trade Hall Taliesin. Yn fab fferm o Bonterwyd roedd John Davies wedi hen arfer saethu llwynogod ar lethrau Pumlumon ac felly yn cael ei ystyried fel *crack shot*. Oherwydd ei allu fe'i osodwyd yn y llinell flaen mewn brwydr ar ôl brwydr, tasg a wynebodd yn arwrol a chael ei ganmol am ei ddewrder. Ond yn haf 1917 daeth newid ar ei fyd, newid a welodd John Davies yn cael ei gyhuddo o fod yn ysbïwr a'i ddanfon i beryg enbyd. Ei ferch Eiriona Metcalfe sy'n adrodd yr hanes.



Y Preifat John M Davies

*Ar derfyn Gorffennaf 1917 roedd Tada'n gwybod yn byddai'n y rheng flaen yn nhrydedd frwydr Ypres. Gymaint oedd y risg fel y cafodd e a'r lleill oedd i fynd ddanfon llythyr olaf at eu teuluoedd – llythyr mewn amlen werdd a oedd i bob pwrpas yn cyfateb i last will and testament. Doedd dim sensro ar y cynnwys ond fe rhybuddiwyd y milwyr y gallai un o bob mil gael ei agor ac roedd llythyr Tada, a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn un o rheini. Er mawr syndod cafodd ei alw i'r guard room eto a chlywed fod ei lythyr wedi'i gyfieithu a gan fod ei gynnwys yn crybwyll gwybodaeth gyfrinachol ei gyhuddo o fod yn ysbïwr. Protestiodd ond i ddim pwynt a'i ddanfon fel cosb i dir neb – milwyr Prydain tu cefn iddo a'r gelyn o'i flaen. Y gobaith oedd y byddai Tada yn cael ei saethu gan arbed ei swyddogion rhag gwneud y gwaith. Ar ôl cyfnod yn nhir neb aethpwyd a Tada eto i'r guard room a chlywed ei fod i wynebu court martial a'r tro yma gwelodd yr amlen werdd ar y bwrdd a sylweddoli nad oedd y llythyr erioed wedi'i ddanfon. Daeth rhagluniaeth o enau Sarjant – Cymro Cymraeg – a roddodd gyfieithiad cywir a dweud yn bendant nad oedd dim cyfrinachol yn y llythyr. Clywodd Tada y geiriau – Davies 57 – you are a free man and free to go.*

Nid dyna unig ddihangfa John Davies. Tra yn y guard room disgynnodd bom ar y fan lle roedd ei gyfeillion yn cysgodi a lladd pob un. A dyna fyddai ei ffawd yntau oni bai iddo gael ei ddwyn o flaen ei well – os gwell hefyd. Dychwelodd o'r rhyfel yn ddianaf i gadw'r Free Trade Hall am flynyddoedd lawer a dod hefyd yn bregethwr cynorthwyol. Geiriau cyntaf ei fam wrth groesawu ei mab o faes y gad oedd iddo gladdu ei wn ar fancyn Pumlumon a'i orchymyn byth i gyffwrdd â gwn wedyn.



This envelope must not be used for coin or valuables. It cannot be accepted for registration.
NOTE:— Correspondence in this envelope need not be censored Regimentally. The contents are liable to examination at the Base.
The following Certificate must be signed by the writer:
I certify on my honour that the contents of this envelope refer to nothing but private and family matters.

Yr amlen werdd oedd yn cynnwys y llythyr.

## YR ENETH GATH EI GWRTHOD

Mae'r ail hanes yn troi o gwmpas Anne Maria Evans yr Hen Swyddfa Bost (Delfryn) Tal-y-bont a'r tro hwn ei hwyres Anwen Haynes, Y Bwthyn Taliesin sy'n rhoi'r manylion.

*Ymunodd Mam-gu a'r fyddin fel cogyddes yng Ngorffennaf 1917 a gwasanaethu tan Ionawr 1919. Er na wasanaethodd ar faes y gâd gweithiodd yn galed a dylem gofio'r ymadrodd – an army marches on its stomach. Lladdwyd ei brawd T.D Evans yn y rhyfel ac mae ei enw wedi'i restru ar y gofeb yn Neuadd Tal-y-Bont. Ar ôl i Mam-gu ddod nol i Sir Aberteifi teimlodd hi a nifer o'i chyfeillion y dylai ei henw hithau fod ar y gofeb. Protestio ac yn diwedd cynhwyswyd ei henw – merch ar derfyn rhestr hir o ddynion.*

Ar lyfr gweddi Ann Evans mae ei chyfeiriad rhyfel – 5th Rifle Brigade, Minster Sheerness, Isle of Sheppey ac ar y clawr cefn y geiriau Fight the Good Fight.




Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | **(01970) 832560** |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Tal-y-bont:** | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | **832592** |
| | Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont | **832438** |
| **Maes-y-deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont | **832483** |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont | **832498** |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Tre Taliesin:** | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | **832230** |
| **Tre'r-ddôl:** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl | **832429** |
| | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | **(01654) 781260** |
| **Eglwysfach/Ffwrnais:** | Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais | **(01654) 781324** |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Is-gadeirydd:** | Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont | **832760** |
| **Ysgrifennydd:** | Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont | **832433** |
| **Trysorydd:** | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Tanysgrifiadau:** | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | **832448** |
| **Hysbysebion:** | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | **832076** |
| **Plygu'r Papur:** | Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones | |
| **Dosbarthwyr:** | John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones | |

**Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**


# Llythyrau

Annwyl Papur Pawb

Diddorol darllen bod Rowland Dolclettwr yn poeni cymaint am sillafiad Cletwr / Clettwr. Wrth sefydlu Cwmni Cymunedol Cletwr, roeddem yn awyddus i ddefnyddio enw Cymraeg sydd hefyd yn datgan ein gwreiddiau yn yr ardal leol. Mae tystiolaeth taw'r sillafiad gwreiddiol yw Cletwr – a taw mapwyr Saesneg eu hiaith oedd yn gyfrifol am ddefnyddio'r ddwy 't'. Efallai y dylem newid Caernarfon, Llandysul ac Aberaeron nol i *Carnarvon*, *Llandyssil* ac *Aberayron* – sillafiadau traddodiadol ers canrif neu ddwy am yr un rhesymau.

Ydyn, mae 'pobl ddwad' wedi chwarae rôl flaenllaw wrth sefydlu'r siop a'r caffi cymunedol. Ond mae croeso i bawb – pobl leol a phobl ddwad – i gefnogi'r fenter, yn hytrach na phoeni am sillafu. Mae'r siop yn ganolbwynt cymunedol ac economaidd y mae llawer o bentrefi ein cefn gwlad yn genfigennus ohono.

Yn gywir,

Tom Cosson

Cwmni Cymunedol Cletwr

Annwyl Ddarllenydd,

Dyma dynnu eich sylw at gynllun newydd sydd o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a allai fod o ddiddordeb ichi.

Mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor wedi dod at ei gilydd i greu cyrsiau newydd ar y we trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob math o feysydd – o Hanes i Seicoleg, o Athroniaeth i Ffotograffiaeth, o Sgiliau Iaith i Gerddoriaeth. I weld y dewis eang o gyrsiau sydd eisoes ar gael ewch ar y we: www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell Mae'r cyrsiau hyn i gyd ar gael i bawb dros 17 oed, a does dim rhaid bod ar y campws i'w hastudio oherwydd bod y cyrsiau hyn i gyd ar y we.

Os ydych chi am ddatblygu sgiliau yn y gweithle neu ddilyn pwnc sydd o ddiddordeb i chi mae hwn yn gyfle ardderchog. Fel arfer, mae pob cwrs yn costio £120 yr un, ond mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn barod i gynnig lle yn rhad ac am ddim i'r 20 unigolyn cyntaf sy'n cofrestru am bedwar cwrs (gwerth £480).Y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Ewch i wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell) i gael ffurflen gofrestru a danfonwch hi cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau yw 12 Ionawr 2015.

I gael rhagor o fanylion neu i drafod hyn ymhellach mae croeso i chi gysylltu â mi ar y ffôn neu drwy e-bost (01970 62 8474 / owt3@aber.ac.uk).

Yn gywir,

Dr Owen Thomas
(Cyfarwyddwr y Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg

# Dyddiadur

**Tachwedd**

**16 Bethel** 10.00 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 2.00 Parch W.J.Edwards
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid

**17 Merched y Wawr**
**"**Blwyddyn trwy lygad y camera"
(Iestyn Hughes)

**20 Sefydliad y Merched**
"Bywyd fel gwraig soldiwr y fyddin"
(Celia Gardener)

**21 Llew Du** Tal-y-bont
Clwb Nos Wener 8.00:Ynyr Llwyd

**23 Bethel** 5.00 Gweinidog
**Nasareth** 10.00 Parch W.J.Edwards
**Rehoboth** 5.00 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cwrdd Teuluol

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yn y Cartref
Nos Fawrth 25 Tachwedd 2014
Am 7.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Annwyl Gyfeillion,
Bydd nifer ohonoch yn cofio i chi noddi, trefnu neu redeg yn Ras yr Iaith ym mis Mehefin. Bellach gyda'r arian wedi ei gasglu gallwn ddatgan fod £4,000 ganddom i'w roi allan ar ffurf grantiau i fentrau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal y Ras sef Ceredigion gyfan, bro Ddyfi a Dyffryn Teifi (Castellnewydd Emlyn ac ochrau'r Teifi yn Sir Benfro). Mae manylion y grant i'w cael ar wefan Ras yr Iaith http//:rasyriaith.org neu gallwch ebostio post@rasyriaith.org yn uniongyrchol am y ffurflen grant.
Gallwn ddim addo y bydd pob cais yn llwyddiannus ond mae haelioni, dyfeisgarwch a gwaith caled trefnwyr a rhedwyr y Ras yn golygu fod ganddom waddol gwerth ei ddathlu a rhannu. Edrychwn ymlaen at glywed a rhannu arian Ras yr Iaith er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg.
Yn gywir,
Siôn Jobbins
Cadeirydd Rhedadeg Cyf.
(cwmni nid-er-elw sy'n trefnu Ras yr Iaith gyda phartneriaid eraill)

**29 Neuadd Goffa Tal-y-bont** 2.00
Ffair Flynyddol y Neuadd
Croeso cynnes i bawb

**30 Bethel** 10.00 Trefniant Lleol
**Nasareth** 2.00 Parch Terry Edwards
**Rehoboth** 2.00 Adrian Williams
**Eglwys Dewi Sant** 10.30 Cwrdd Undebol
(Eglwys St Michaels Llandre)

**Rhagfyr**

**2 Cangen Plaid Cymru**
**Gwaelod y Neuadd:** 7.30
Cyfle i gwrdd â'r Darpar Ymgeisydd Seneddol Mike Parker
**Llanfach, Taliesin** 7.00
Arddangosfa coginio "Sugarcraft"
(Val Walsh)

**7 Bethel** 2.00 Gwenidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 5.00 Parch Elwyn Pryse
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid

**8 Neuadd Goffa** 2.00
Merched y Wawr
"Mae'r Nadolig yn nesau"

**9 Cyfarfod Chwiorydd Rehoboth**
**"**Ardduniadau"
(Beti Wyn Davies)

**11 Sefydliad y Merched**
Parti Nadolig

**14 Bethel** 10.00 Gweinidog (C)
**Bethel** 6.00 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol Merched y Wawr
**Nasareth** 11.15 Bugail (C)
**Rehoboth** 10.00 Bugail (C)
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Geraint ac Eirian, gyda Iolo yn dylunio. Golygyddion mis Rhagfyr fydd Medi (harryamedi@btinternet.com), Llio (tomallio@tiscali.co.uk) a Mared (mllwyd@hotmail.com), gydag Elgan yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 5 Rhagfyr, a bydd y papur ar werth ar 12 Rhagfyr.


Ariennir gan Lywodraeth Cymru

# Pobl a Phethe



**Ar 17 o Hydref yn Eglwys Dewi Sant Tal-y-Bont priodwyd Louise Sara Bradley Maes-y-Deri a James Edward Fox Brunston o Swydd Efrog. Dymunwn pob hapusrwydd i'r ddau.**

**Llais i Heti**
Roedd rhaglen gyntaf cyfres newydd O'r Galon a ddarlledwyd ar S4C ar nos Iau 6 Tachwedd yn adrodd hanes Heti, merch 5 oed, sydd wedi derbyn triniaeth arloesol i osod mewnblaniad ar ei hymenydd i'w galluogi i glywed. Heti yw'r plentyn cyntaf yng Nghymru i dderbyn y driniaeth. Mae Heti yn ferch i Elin a Rhys Williams, Horeb, ger Caerfyrddin ac yn wyres i Emyr a Lisa Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch. Anfonwn ein cofion cywiraf a'n dymuniadau gorau i Heti a'r teulu cyfan.

**Estyn llaw**
Mae dau o gyn ddisgyblion Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn rhoi eu holl amser i helpu y trueiniaid sy'n dioddef o ganlyniadau Ebola yn Sierra Leone. Mae Tom Cairns yn cynorthwyo mewn ysbyty yng nghanol unigolion a effeithiwyd gan yr afiechyd a da oedd clywed Tom yn sôn am ei brofiadau a'i ofidiau ar raglen Taro'r Post. Mae Leonard Tedd yn gweithio yn Llundain yn adran y Llywodraeth sy'n estyn cymorth i wledydd tramor ac yn rhan o dîm sy'n casglu anghenion i'w danfon i'r wlad.

**îHA!!**
Un o sêr cyfres gomedi newydd S4C îha Sheelagh yw Ioan Gwyn, Maesgwyn Tal-y-bont. Mae Ioan wedi glanio ym mhentref Rhydybwcedganol rywle yng Ngorllewin Cymru (yn ôl yr acenion) ac yn chwarae rhan mecanic o'r enw Lean-To. Y plot? Dau ffarmwr horni yn glafoerio dros y pishyn lleol sy'n fam i hync sy yn ei dro yn llygadu dwy o ferched perta'r cwm. Swnio fel risêt am lot o hanci panci. Pob hwyl gyda'r ffôr bei ffôrs Ioan.

**Llongyfarchiadau mawr**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Megan Brickley, Tan-y-bryn, Tre Taliesin, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 5 Tachwedd.

**Llawdriniaeth lwyddiannus**
Braf iawn gwybod bod Iorwerth Jones, Brynamor, Tre Taliesin, yn gallu gweld cymaint yn well ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

**Ysgol Sul Bethel**
Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch Ysgolion Sul yr ofalaeth ym Methel, bnawn Sul, 19 Hydref. Cafodd pob aelod o'r Ysgol Sul gyfle i ddarllen yn unigol a gwnaethant hynny gyda graen . I gloi, canwyd emyn o ddiolch i gyfeiliant ffliwt a phiano . Diolch i Becca, Bedwyr, Betsan, Dyfri, Efa,Eli, Gethin, Heddwyn, Heledd, Hopcyn, Miri ac Ynyr am eu cyfraniadau. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd paned a chacen yng nghwmni aelodau Noddfa a'r Garn.

Cyflwynwyd rhodd o £50 i Rhian Nelmes, athrawes yn yr Ysgol Sul, a fydd yn teithio i Ghana'r mis nesa. Bydd yn defnyddio'r arian i brynu offer ar gyfer ysgol yno. Dymunwn yn dda iddi ar ei thaith.

**Gyrrwyr newydd Sbon!**
Da iawn ti Steffan Thomas, Glas-y-Ddôl, Tal-y-bont ar basio dy brawf gyrru'n ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Carwyn Hughes, Maes-y-felin, Tal-y-bont, ar basio ei brawf gyrru.

**Cartref newydd**
Dymunwn yn dda i Mr Harold Lewis, gynt o Mans Tabernacl, Tal-y-bont, sydd newydd symud i fyw i 3 Terrace Row, Taliesin. Pob hwyl i chi yn eich cartref newydd.

**Gŵyl Cerdd Dant Cymru**
Llongyfarchiadau i Anwen Howard, Brynfa, Tal-y-bont sydd yn aelod o gôr Ger y Lli, Aberystwyth a enillodd yr ail wobr yn y gystadleuaeth i gorau gwerin yn yr ŵyl a gynhaliwyd yn Rhosllannerchrugog ddydd Sadwrn Tachwedd 8fed.

**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i Gwyndaf Evans Maes-y-Deri a dderbyniodd driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Penblwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Dafydd Parry Cwm Glas ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

**Symud cartref**
Dymunwn yn dda i Peter a Julie Wathern Erwau Glas Tal-y-Bont sydd newydd symud yn agos at eu teulu yng Nghaerloyw. Nid yw iechyd Peter wedi bod yn dda a threuliodd rai misoedd yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus i Glyn Saunders Jones Fagwyr a ddathlodd ei benblwydd yn 70 oed yr wythnos diwethaf – a hynny mewn steil!

Un arall a ddathlodd benblwydd arbennig oedd Delyth Ifan Llys Alaw. Penblwydd hapus iddi hi hefyd.

**O ras i ras**
Bu Elaine Rowlands Maes-y-Felin yn cymryd ran yn y Trail Ffest sef ras hanner marathon Porthmadog yn ddiweddar.

**Ffotograffwyr dawnus**
Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd pedwaredd gŵyl FfotoAber a daeth cryn lwyddiant i Dal-y-Bont.Yn y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion cynradd enillodd Glain Llwyd Davies yr ail wobr ac enillodd Jeno Lewis Hen Siop Sgidie y wobr gyntaf a'r drydedd wobr yn y categori ar gyfer ysgolion uwchradd. Y thema ar gyfer y ffotograffwyr ifanc oedd Tyfu a Ffynnu.

Yna yn y Ffotomarathon lle mae cystadleuwyr yn gorfod tynnu chwech llun mewn chwech awr ar chwech thema enillodd Tanwen Haf y categori ar gyfer camera a lensys cyfnewidiol a Mererid Williams Cynull Mawr oedd y gorau am dynnu lluniau ar y thema Igam Ogam. Llongyfarchiadau mawr i'r pedair ohonynt.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn ag Alun Elidir a'r teulu, Simdde Wen, Tal-y-bont ar golli Mam Alun o Gae Coch, Rhydymain, Gwynedd.

CYMDEITHAS SIOE
TAL-Y-BONT
GYRFA CHWIST
DOFEDNOD
Neuadd Goffa Tal-y bont
Nos Fercher 17 Rhagfyr 2014
Am 8.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

# Clwb Celf Taliesin
## arddangosfa flynyddol











# Y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngogledd Ceredigion: Prosiect Cofio a Myfyrio



Lansiad arddangosfa i gofio'r Rhyfel Mawr, Neuadd Rhydypennau, 3 Tachwedd 2014; gwelwyd yn Nhal-y-bont 10-11 Tachwedd. Llun gan Iestyn Hughes.



Plant Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn adrodd englynion coffa Hedd Wyn, adeg lansio arddangosfa i gofio'r Rhyfel Mawr, Neuadd Rhydypennau, 3 Tachwedd 2014. Llun gan Iestyn Hughes.



**Rhai aelodau lleol o gast cyflwyniad dramatig y prosiect Cofio a Myfyrio.** Arweinydd Creadigol y prosiect ydy Euros Lewis ac o'r hanesion lleol a glywodd yng nghyfarfodydd dechreuol y prosiect y tyfodd y ddrama, storïau'r ardaloedd eu hunain yw'r cynnwys. Yn ôl Euros mae ei pherfformio mewn capeli yn ail-greu cefndir diwylliannol y cyfnod enbyd hwnnw yn fwy grymus nag y gallai unrhyw ddrama gonfensiynol ar lwyfan ei wneud.

Perfformiwyd y cyflwyniad dwy ran eisoes yng Nghapel y Garn ac ym Methel Tal-y-bont ond mae cyfle i'w gweld eto yng Nghapel Penllwyn nos Wener Tachwedd 14 (Act 1) ac yn Horeb Penrhyncoch ar Dachwedd 20fed (Act 2).

# Antur Fawr



Ganol Tachwedd fe fydd Glyn Jenkins Bwthyn y Fron Tal-y-Bont yn cychwyn ar antur fawr gan deithio o gwmpas Asia ac yn arbennig Nepal. Am yr wythnosau cyntaf fe fydd yn gweithio yn Pokhara mewn cartref i blant amddifad cyn mynd ymalen i'r Himalayas. Ar hyn o bryd mae Glyn a fynychodd Ysgol Penglais a Phrifysgol Aberystwyth yn gweithio fel reolwr digwyddiadau yn adran trefnu cynadleddau'r  brifysgol. Fel y dwedodd Glyn wrth Papur Pawb 'Rwyf wedi pacio fy mag ac yn barod am yr antur. Rwyf wedi bod eisiau teithio erioed ond nawr mae fy mreuddwyd yn dod yn fyw'. Gallwch ddilyn teithiau Glyn ar y wefan: thisislife01.com. Pob hwyl iddo yntau ac edrychwn ymlaen at glywed hanes ei daith.

## Ar daith

Ar ddydd Sadwrn, Medi'r 20 aeth nifer dda o aelodau a chyfeillion o Gapel Rehoboth ar daith i ymweld ag Abaty Cymer, Dolgellau, Canolfan Ednowain Trawsfynydd ac ymlaen i Borthmadog gyda John Leeding yn yrrwr medrus a gofalus. Pwrpas y daith oedd i ddeall ychydig mwy am hanes y merthyr John Roberts. Cafodd John Roberts ei eni a'i fagu yn ardal Trawsfynydd a daeth dan ddylanwad un o fynachod Abaty Cymer. Aeth ymlaen i astudio'r Gyfraith yn Rhydychen. Bu'n astudio mewn mynachlogydd yn Ffrainc ac yn Santiago de Compostella cyn dychwelyd i Brydain. Cafodd ei garcharu sawl tro a'i ddienyddio yn Llundain Ragfyr y 10, 1610 yn 33 oed. Cafodd ei wneud yn Sant yn y flwyddyn 1970 ac yn un o ddeugain Merthyr Cymru a Lloegr a adnabyddir gan yr Eglwys Babyddol.

Cafwyd cinio yng Nghanolfan Coed y Brenin cyn mynd ymlaen i Drawsfynydd a Chanolfan Ednowain.Mae'r arddangosfa yn y Ganolfan yn egluro llawer iawn o'i hanes a'r cyfnod cythryblus y bu'n byw, yn ogystal a gwybodaeth am yr ardal honno a'i hanes diddorol.
Ar y ffordd adref mwynhawyd swper blasus yng Ngwesty'r Llew Coch, Dinas Mawddwy.

# O'R CYNULLIAD



Mae cyhoeddi adolygiad Marcus Longley o wasanaethau iechyd yn y Canolbarth yn ddatblygiad pwysig iawn i bawb ohonom sydd wedi ymgyrchu dros wasanaethau iechyd yng Ngheredigion.

Comisiynwyd yr adroddiad gan y Gweinidog Iechyd yn dilyn cyfarfod y cefais gydag ef a meddygon o Fronglais a'r dalgych, ac rwy'n falch ei fod yn cydnabod anghenion arbennig Cymru wledig.

Yn bennaf, gweledigaeth yr adroddiad yw i osod Bronglais a Cheredigion wrth galon penderfyniadau am ddyfodol iechyd, trwy gydweithio agosach rhwng byrddau iechyd a darparwyr cynradd. Yn rhy aml, bu'n hardal ni ar y cyrion.

Rwy'n siwr fod brwydrau'n dal i fod o'n blaenau, ond mae casgliadau'r Athro Longley – ar yr angen i adeiladu gwasanaethau cynaliadwy yn lleol, i adfer ymddiriedaeth rhwng y cyhoedd a phenaethiaid iechyd, ac i gwrdd â'r sialensau i ofal iechyd cynradd – yn gadarnhaol. Bydd croeso gan gleifion ac ymgyrchwyr i'r hyn sydd ganddo i'w ddweud am rai gwasanaethau y bu dan fygythiad, megis triniaeth y galon.

Mae'r Gweinidog Iechyd eisoes wedi dweud y bydd yn edrych am weithredu di-oed ar rai o'r argymhellion, ac edrychaf ymlaen at gydweithio i geisio troi'r weledigaeth yn realiti.

Gweledigaeth arall sy'n sicr yn werth ei chefnogi yw'r syniad o adfer cysylltiad rheilffordd rhwng Aberystwyth, Tregaron, Llanbed a Chaerfyrddin. Rwy'n falch fod y Prif Weinidog, mewn ymateb i gwestiwn gen i mewn sesiwn drafod yn Hendy-Gwyn-ar-Dâf, wedi dweud ei fod yn rhannu'r weledigaeth, ac yn gweld y manteision a fyddai'n dod i gymunedau ar hyd y lein arfaethedig. Rwy' hefyd wedi bod yn pwyso ar fater Gorsaf Bow Street, a byddaf yn parhau i weithio dros y prosiectau yma ar bob cyfle.

Elin Jones AC

**Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**

**CINIO DATHLU'R 40**
Nos Lun Ionawr 19 2015 yng nghwmni
Llywydd Cendlaethol MyW

Croeso i gyn aelodau ymuno â ni yn y dathliad
Cysylltwch â Medi James ar 832725 neu
harrryamedi@btinternet.com erbyn Rhagfyr 14 fan bellaf




# Canlyniadau Sioe Llangynfelyn

**Coginio**

*Cacen Fictoria*
1 Mrs L Hicks, Lynafon, Tre'r Ddôl
2 Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin
3 Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl

*Fy hoff gacen*
1 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
2 Mrs V Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddôl
3 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn

*Cacen spwng wedi ei addurno*
1 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Bara Brith*
1 Mrs L Hicks, Lynafon, Tre'r Ddôl
2 Mrs J Pearson, Cysgod Y Coed, Tre'r Ddôl
3 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Tri Darn o gacen wedi ei bobi mewn tray*
1 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
2 C & A Moss, Ynys Tachwedd,Ynyslas
3 Mrs V Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddôl

*Chwe Gwellt caws*
1 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
2 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl

*Pedair Rôl bara* (*gwyn neu frown*)
1 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl
2 Mr W Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
3 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl

*Pedair Pice ar y maen*
1 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin

*Dau Wy Albanaidd*
1 Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Tair Myffin o flas gwahanol*
1 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
2 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl

*Pedair Cacen Pili Pala*
1 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
2 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
Arddangosfa orau yn yr adran-Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

**Crefftau**

*Eitem o ddeunyddiau wedi'i hailgylchu*
Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
Mrs A Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
Mrs M Bailey,Arosfa,Taliesin

*Dilledyn wedi ei langylchu*
*Eitem wedi'i gweu neu'i chrosio i fabi*
1 Ms G Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
2 Mrs S Cartwright, 1 The Romans, Taliesin
3 Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl

*Pwysau papur*
1 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
2 Mrs J Smith, Dyfi Villa, Taliesin
3 Mrs J Smith, Dyfi Villa, Taliesin

*Llyfrnod*
1 Mrs J Smith, Dyfi Villa, Taliesin

*Eitem wedi'i gwneud o froc môr*
1 Mr R Spencer, Manchester House, Taliesin
2 Mr M Willis, Ystordy, Taliesin
3 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin

*Llun pensil*
1 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Ms A Solomon, Froggy Pond, Llangynfelyn
3 Mrs A Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
Arddangosfa orau yn yr adran-Ms G Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddôl

**Cynyrch Fferm**

*Tri Wy brown*
1 Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl

*Tri Wy gwyn*
1 Mrs G Jones,Blaenddol, Tre'r Ddôl
2 Mrs G Jones,Blaenddol, Tre'r Ddôl
3 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn

*Tri Wy arlliwiedig*
1 Iwan Foster Leslie, Llyscynfelin, Taliesin
2 Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl

*Tri Wy o wahanol liw*
1 Mr R H Davies, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
2 Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl

*Tri Wy hwyaid*
1 Miss F Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn
2 Miss F Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mr R H Davies, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
Arddangosfa orau yn yr adran-Mrs M Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl;

**Blodau**

*Pum Coesyn unigol* (*cymysg*)
1 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Ms G Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
3 Mrs J Pearson, Cysgod Y Coed, Tre'r Ddôl

*Tri coesyn unigol* (*yr un math o flodyn*)
1 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
2 Mrs J Nowak, Bank Y Deri, Tre'r Ddôl
3 Mrs L Spencer, Manchester House, Taliesin

*Planhigyn tŷ mewn pot* (*y deiliant*)
1 Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin
2 Mr R Spencer, Manchester House, Taliesin
3 Mrs J Nowak, Bank Y Deri, Tre'r Ddôl

*Planhigyn tŷ mewn pot* (*yn ei flodau*)
1 Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin
2 Mr B Davies, Rhos, Taliesin

*Cactws neu blanhigyn syddlon mewn pot*
1 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
2 Ms A Solomon, Froggy Pond, Llangynfelyn
3 Iwan Foster Leslie, Llyscynfelin, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin

**Celf Flodau**

**Cwpan Y Byd**

*Blodyn i dwll botwm*
1 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin

*Trefniad mewn cwpan a soser*
1 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
2 Jasmin Foster Leslie, Llyscynfelin, Taliesin

*Addurniad o flodau sychion mewn jwg*
1 Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
2 Ms G Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
3 Mrs L Spencer, Manchester House, Taliesin

**Dosbarth dechreuwyr**
*Un Addurniad i gynnwys darn o froc môr*
2 Miss F Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn
3 Miss F Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
Arddangosfa orau yn yr adran-Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin

**Ffrwythau**

*Tri Afal coginio*
1 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
2 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
3 Mr B Davies, Rhos, Taliesin

*Tri Afal pwdin*
1 Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin1Arddangosfa orau yn yr adran
2 Mr R H Davies, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
3 Ms S Saunders, Is Y Coed, Taliesin

*Chwe Eirin Sbaen*
1 Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
2 Mr N Callaghan, Hafan Taliesin
3 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin

*Tri Coesyn Riwbob*
1 Mrs H Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn
2 Mr P Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddôl
3 Mrs S Lewis, Maes Gwyn, Tre'r Ddôl

*Tair Gellygen*
1 Mr N Callaghan, Hafan Taliesin
2 Mr P Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Mrs M Leeding, Glannant, Taliesin

*Ffrwythau meddal cymysg ar blât bach*
1 Jasmin Foster Leslie, Llyscynfelin, Taliesin
2 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
3 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mr G Lewis, York House, Tre'r Ddôl
Arddangosfa orau yn yr adranMrs M Leeding, Glannant, Taliesin

**Ffotograffiaeth**

*Blodau* (*lliw*)
Mrs S Sykes,Bryndyfi, Taliesin
Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl

*Glan y môr* (*lliw*)
Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
Mrs B W Davies, Rhos, Taliesin
Mrs J Nowak, Bank Y Deri, Tre'r Ddôl

*Adeilad adfeiliedig* (*du a gwyn*)
Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl
Mr G Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl

*Bywyd gwyllt* (*lliw*)
(*Ysgol Gynradd*)
1 Iago Gwyn, Rhos, Taliesin
2 Libby Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
3 Jasmin Foster Leslie, Llyscynfelin, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
Arddangosfa orau yn yr adran-Mrs S Sykes,Bryndyfi, Taliesin

**Cyfeithau**

*Jar o jam*
1 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Mrs V Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddôl

*Jar o jeli frwyth*
1 Mrs J Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Mrs L Spencer, Manchester House, Taliesin
3 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl

*Jar o sytni*
1 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Jar o farmalade*
1 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Mrs V Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddôl

*Jar o geuled ffrwythau*
1 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl

*Jar o bicls*
1 Mr R H Davies, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Jar o gyfaith angyffredin*
1 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl
2 Mrs J Smith, Dyfi Villa, Taliesin
3 Mr R H Davies, Al Liorzh,Tre'r Ddôl

*Jar o jeli mint*
1 Ms G Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddôl
2 Mrs S Lewis, York Youse, Tre'r Ddôl
3 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Jar o jam* (*dosbarth dechreuwyr sydd heb ennill gwobr o'r blaen*)
1 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
2 Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Mrs H Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran-Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
Arddangosfa orau yn yr adran-Miss M James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl

*Bwgan Brain*
1 Mrs G Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
2 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn
2 Art Group, Taliesin

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Yng nghyfarfod mis Hydref cafwyd noson hwyliog a diddorol iawn yng nghwmni Rhiannon Roberts. Merch o Giliau Aeron yn wreiddiol ac ar ôl graddio rai blynyddoedd yn ôl penderfynodd ddilyn gyrfa fel artist gan weithio o'i stiwdio yn Nyffryn Aeron. Bellach mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio o'i stiwdio newydd yn y Bae ond yn dal i deithio dipyn rhwng y brifddinas a'r gorllewin yn gyson. Mae hefyd wedi cychwyn dangos ei gwaith dros y ffin ac ehangu'r nwyddau sydd ganddi yn baentiadau dyfrlliw, calonnau pren, costeri, cardiau, calendrau, bowlenni, jwgiau a phlatiau – mae'r rhestr yn cynyddu'n gyson. Yn ei gwaith mae'n cyfuno realiti efo ffantasi ac o ganlyniad ceir ymdeimlad hudolus yn y gwaith gorffenedig. Drwy ddefnyddio lliwiau llachar a'i dychymyg byw mae'n troi golygfeydd yn ddarluniau chwareus sy'n llawn cymeriad a hwyl. Gellir gweld y cynnyrch yma mewn nifer o leoliadau ar draws Cymru ac mewn ffeiriau a marchnadoedd Nadolig o'r de i'r gogledd. Roedd yr holl gynnyrch yn wledd i'r llygaid ac ar ddiwedd ei chyflwyniad cafwyd cyfle i sylwi'n fanylach arnynt ac wrth gwrs i gychwyn ein siopa Nadolig. Diolchwyd yn gynnes iddi am noson ddiddorol a difyr gan Elizabeth Evans. Enid ac Elizabeth oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson ac am baratoi paned i bawb cyn troi am adref.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 17 am 7.30 yn y Neuadd Goffa pan fyddwn yn edrych ar "Flwyddyn trwy lygad y camera" yng ngofal Iestyn Hughes. Beth am ymuno â ni? – mae 'na groeso cynnes bob amser.



Dafydd Iwan yng nghwmni rhai o aelodau Ysgol Sul Bethel, mewn gwasanaeth teulu ar y thema 'Natur'.

**Gwŷl Coeden Nadolig**
**Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch**

**Bydd yr eglwys ar agor rhwng 2.00-8.00 yr hwyr o ddydd Sadwrn 6ed hyd ddydd Sul 14eg o Ragfyr**

**Estynnwn groeso cynnes i bawb, galwch heibio am baned a mins pei ac i weld yr eglwys yn ei holl ysblander Nadoligaidd**


*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
*ffôn* 832 612
07835 525 553



**Gwasanaeth Scanio**
**ARTHUR MORGAN**





Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292



CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
TEIARS HUW LEWIS TYRES

**Teiars**
**Aliniad Olwyn**
**Ecsôsts**
**Batris**
**Brêcs**
**Hongiad**
**Bar tynnu**
**Gwasanaeth**
**MOT**
**HUWLEWISTYRES.COM**

**Glanyrafon** **Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
**ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166** **MACHYNLLETH 01654 700000**
**LLANBED 01570 422221**



**Garej Davmor**

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

***Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont***

**01970 832278** **www.davmorgarage.co.uk**


## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn festri capel Rehoboth, Tre Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 14 Hydref. Darllenodd ein llywydd, Eiriona Metcalfe, dri phennill o awdl 'Y Cynhaeaf' gan y Prifardd Dic Jones i ddechrau'r cyfarfod, ac yna cyflwynodd ein gwraig wadd, sef Rhian Medi, merch Dic Jones.

Yn ystod y prynhawn bu Rhian Medi yn sôn am ei gwaith fel Swyddog Addysg gydag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladu Cadwgan ynglŷn â'r gwaith o adfer Castell Aberteifi ar gost o bron i £12m. Mae'r safle fod i ailagor adeg y Pasg 2015 fel atyniad i ymwelwyr ac fel canolfan i gynnal gweithgareddau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, diwylliant, crefftau, yr amgylchedd ac astudiaethau garddwriaethol. Yn ogystal bydd y safle'n cynnwys llety, canolfan dreftadaeth a bwyty. Cafwyd cân gan Rhian Medi i gyfeiliant yr acordion i gloi'r cyfarfod. Diolchwyd iddi am brynhawn diddorol ac addysgiadol gan Myfanwy Rowlands. Wedyn mwynhawyd te a sgons wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

**Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb**

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

**Hefyd:**
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**


Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen


**papurpawb.com**

**Swyddog Cynlluniau a Chyfathrebu**

I arwain rôl ecodyfi yn www.cobwebproject.eu a chynorthwyo Trefnydd ecodyfi. Gan ganolbwyntio ar reoli gweithgareddau lleol yn y cynllun technoleg 'gwyddoniaeth dinasyddion' yma, bydd y swyddog hefyd yn gweithio ar gyfathrebu ar ran ecodyfi a Biosffer Dyfi UNESCO.

Bydd felly angen sgiliau trefnyddol arbennig a chyfathrebu dwyieithog ac, yn ddelfrydol, gallu mewn technoleg ddigidol.

21 awr yr wythnos. £20,400 *pro rata.*

**Dyddiad cau: 10yb 1af Rhagfyr**

Dogfennau: 01654 703965 andy.rowland@ecodyfi.org.uk

**Jonathan Lewis**

Saer Coed/Adeiladydd
Carpenter/Builder

E jjlewis353@hotmail.co.uk

Bronllys, Capel Bangor, Aberystwyth



01970 880 652
07773 442 260

**Y Fframdy**

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- ***Cofio neu Cywilyddio* (7.30, nos Fercher, 12 Tachwedd):** cyfle i drafod a 'bwrw bol' ar y Rhyfel Byd Cyntaf gyda Marcus Robinson, Aled Thomas, Guto Prys ap Gwynfor a Meic Birtwhistle. Mynediad: £2.
- **Gŵyl Lyfrau Morlan — 14 Tachwedd:** hwyl yng nghwmni Coblyn a Pili Pala o Bentre Bach (4-7 oed), gweithdy barddoniaeth gydag Eurig Salisbury (8-11 oed) a sgwrs a chân yng nghwmni Manon Steffan Ros. **15 Tachwedd:** sesiynau gyda Gwyn Jenkins, Lleucu Roberts a T. James Jones.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**www.morlan.org.uk**

# Ysgol Tal-y-bont

## Y Rhyfel Byd Cyntaf Prosiect Cofio a Myfyrio

Dros yr wythnosau diwethaf mae aelodau rhai o gapeli gogledd Ceredigion wedi dod at ei gilydd i greu'r prosiect a fydd yn edrych ar effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ar yr ardal. Roedd hi'n bleser gweld plant o'r ysgol yn perfformio yn noson lansio'r prosiect yn Neuadd Rhydypennau ar ddechrau'r mis ac roedd eu dehongliad o englynion Hedd Wyn i gyfeiliant yn arbennig. Diolch yn fawr i Miss Morris am hyfforddi ac i Catrin Mai am gyfeilio.

**Jambori'r Urdd**

Ar ddydd Mawrth y 7fed o Hydref fe aethon ni i Ysgol Penglais i fod yn rhan o Jambori yr Urdd. Roedd Gwenda Owen a Mr Urdd yn aros amdanom. Y gân gyntaf oedd Hei Mr Urdd ac roedd pawb yn canu a dawnsio'n syth. Wedyn fe ganon ni Aderyn Melyn. Yn gyntaf roedd yn rhaid i bawb oedd yn gwisgo melyn sefyll ar eu traed a chwifio eu dwylo, wedyn pawb oedd yn gwisgo gwyrdd, wedyn pawb oedd yn gwisgo coch, wedyn brown ac yn olaf y rhai oedd yn gwisgo oren. Dyna hoff gân y rhan fwyaf o'r plant. Pan oedden ni'n canu Dawns y Pentre roedd yn rhaid i Miss Morris fynd i ddawnsio ar y llwyfan, roedd yn ddoniol iawn. Yna, roedd yn rhaid i Miss Ruth fynd i'r llwyfan i ganu Pen Ysgwyddau Coesau Traed gyda Gwenda! Y gân olaf oedd Canu Roc a Rôl ac roedd pawb yn dawnsio unwaith eto.

Seren a Glain (llysgenhadon yr Urdd)

# Ysgol

**Traws gwlad**

Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n cystadlu yn y rasys traws gwlad yng Nghaeau'r Ficerdy cyn hanner tymor. Da iawn chi yn enwedig i ddisgyblion Blwyddyn 3 a fu'n cystadlu am y tro cyntaf.

**Jambori'r Urdd**

Aeth Dosbarth Miss Jones i Ysgol Penglais i ymuno yn Jambori blynyddol yr Urdd. Bu'r plant yn canu ac yn dawnsio gyda llawer o blant eraill o ysgolion cynradd ardal Aberystwyth.

**Cenhadon Ifanc Efydd Chwaraeon Ceredigion**

Aeth Asher Wood ac Elijah Girardi i Ysgol Plascrug yn ddiweddar am ddiwrnod o hyfforddiant chwaraeon. Cynrychiolodd y ddau'r ysgol gyda disgyblion eraill o ysgolion cynradd ardal Aberystwyth. Bydd Asher ac Elijah yn cynnal gweithgareddau sgiliau chwaraeon yn ystod amser cinio ac yn annog y plant eraill i gymryd rhan mewn chwaraeon yn ystod amser egwyl.



**Ymweliad â Siop Cynfelyn**

Fel rhan o'u thema 'Blasus', aeth plant Dosbarth y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad i Siop Cynfelyn. Buont yn tynnu lluniau o'r caffi a'r nwyddau gyda'r ipads cyn mynd i'r gegin i weld Beti Wyn yn gwneud cacen flasus. Bu'r plant wrth eu bodd yn gofyn cwestiynau i Beti am y caffi a'r bwyd. Diolchwn yn fawr iawn i Karen am y ddiod a'r fisged a gafodd y plant cyn iddynt gerdded nôl i'r ysgol.

**Ffilm Cyngerdd '10 Pieces'**

Aeth Dosbarth Miss Jones i sinema'r Ganolfan Gelfyddydau i weld ffilm arbennig o'r enw '10 Pieces'. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn wylio'r ffilm a buont yn siarad llawer am y gerddoriaeth ac am y ffilm nôl yn yr ysgol.

**Sioe Buddug**

Fel rhan o'i thema am y Celtiaid, aeth Dosbarth Miss Jones i weld perfformiad 'Buddug' yn Neuadd Goffa Tal-y-bont gyda phlant Cyfnod Allweddol 2 ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa. Roedd y perfformiad yn gyffrous iawn a chafodd amryw o'r plant gyfle i wisgo fyny fel Celtiaid ac i actio gyda Buddug.



**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Diolch yn fawr i bawb a fynychodd ein Gwasanaeth Diolchgawrwch yng Nghapel Bethel yn ddiweddar. Diolch i'r Ysgol Sul am addurno'r Capel mor hyfryd ac i Mrs Falyri Jenkins am gyfeilio. Rydym wedi trosglwyddo £75 y casgliad i Mrs Nelmes sydd wedi defnyddio'r arian i brynu offer ysgrifennu i Ysgol Mensah Sarbah yn Ghana.

**Ysgol Eco**
Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ennill y Faner Werdd o dan y cynllun Ysgol Eco. Rydym yn falch iawn o'r llwyddiant yma yn enwedig cyfraniad y plant oedd yn allweddol i'r cynllun. Diolch yn fawr i Mrs Jones am gydlynu'r cynllun ac i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith.

Dyma farn un o'r beirniaid, "Diolch yn fawr iawn am yr amser a roesoch chi a'ch staff a'ch disgyblion yn ystod yr ymweliad yn ddiweddar. Roedd yn bleser gweld brwdfrydedd eich ysgol tuag at y rhaglen. Mae ennill y Faner Werdd yn gamp anhygoel. Dylai'r ysgol, y staff a'r disgyblion deimlo'n falch iawn o'u gwaith caled a'u hymroddiad".



**Mewn Cymeriad**
Yn ystod y mis aethom i weld sioe arbennig yn rhoi hanes Buddug - Brenhines y Brwydro i ni. Roedd hyn yn ffordd dda iawn o ddysgu mwy am ein thema. Dysgom ni fod Buddug yn Frenhines yr Iceni a bod hi wedi arwain y Celtiaid yn erbyn y Rhufeiniaid. Roedd hi'n hwyl cael gwisgo fel milwr yn rhan o'r sioe.

**FfotoAber**
Hoffwn longyfarch Elen, Glain a Miriam am gystadlu yng nghystadlueaeth ysgolion Ffotoaber eleni. Llongyfarchiadau arbennig i Glain a ddaeth yn ail. Mae dau lun gan Glain ac un gan Miriam i'w gweld yn yr arddangosfa yn Arad Goch tan ddiwedd y tymor. Maent yn werth eu gweld. (llun ar y dde)



# Llangynfelyn



**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol cyn gwyliau hanner tymor. Bu'r holl blant yn canu ac yn darllen darnau am y cynhaeaf. Darllenodd rhai o blant Blwyddyn 6 ddarn am gynhaeaf yng Nghana a cyflwyno ffeithiau am Ghana. Bydd Mrs Nelmes yn ymweld â Ghana am wythnos ar yr 8fed o Dachwedd fel rhan o brosiect y Cyngor Prydeinig - 'Connecting Classrooms'. Bydd disgyblion ysgolion Llangynfelyn, Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa yn cyd-weithio gydag ysgol Mensa Sarbah 'B' Basic School yng Nghana ac ysgol Nkope Hill, Malawi ar brosiect ar ynni gwynt. Diolchwn yn fawr iawn i rieni, phlant a ffrindiau'r tair ysgol am gyfrannu casgliad eu Gwasanaethau Diolchgarwch er mwyn i Mrs Nelmes brynu deunyddiau addysgiadol i blant yr ysgol yng Nghana. Diolch hefyd i blant Ysgol Sul Bethel am eu cyfraniad hael. Dwi'n siŵr y byddwch yn clywed am hanes Rhian yng Nghana yn rhifyn nesaf Papur Pawb!





**Casglu Mês**
Daeth Swyn Spencer o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r ysgol i gasglu mês gyda'r plant. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn flwyddyn dda iawn i fês o goed derw brodorol Cymreig. Bu'r plant yn casglu rhai mês a gobeithiwn y bydd Swyn yn medru dod nôl y flwyddyn nesaf pan rydym yn gobeithio y bydd yn flwyddyn well i fês Ysgol Llangynfelyn. Bu'r plant lleiaf yn chwarae gêm ffeindio'r gwiwerod a buont yn adeiladu cartref clyd i'r wiwer.




**Noson Tân Gwyllt**
Mae Tachwedd y 5ed bob amser yn cyffrous yn Ysgol Llangynfelyn oherwydd bod y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal noson tân gwyllt i'r gymuned leol. Eleni roedd dros 100 o bobl wedi mynychu a chael hwyl fawr wrth gymdeithasu, bwyta cawl blasus Linda Hicks a gweld y sioe tân gwyllt ardderchog wrth gwrs. Diolch yn fawr iawn i siop Morrison's a chwmni Hayes McKenzie am noddi'r noson, i Malcolm a Duncan am fod yn gyfrifol am y tân gwyllt ac i deulu Dolclettwr am gael defnyddio'r cae. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael croesawu pawb y flwyddyn nesaf eto.

# COFIO O'R NEWYDDD





Mewn seremoni syml yn Neuadd Tal-y-Bont dadorchuddiwyd plac wrth ymyl y cofebion eraill i goffau John A C Morgan, gynt o Tanrallt a laddwyd yn Borneo ar y 9fed Ebrill 1965. O 1962 i 1962 roedd rhyfela rhwng gwladwriaeth newydd Malaysia â'r Comiwnyddion yn Indonesia gyda'r Comiwnyddion yn gwrthwynebu creadigaeth Malaysia. Ochrodd Prydain gyda Malaysia a derbyn cefnogaeth Awstralia a Seland Newydd Roedd rhan helaeth y brwydro ar y ffin rhwng Indonesia a Dwyrain Malaysia ar ynys Borneo.




Ar y diwrnod tyngedfennol roedd John Morgan yn gweithredu fel peilot hofrennydd ac yn esgyn o un o brif safleoedd yr ymladd, Nanga Gaat Sarawak yn nyfnderoedd jyngl Borneo. Wrth i'r hofrennydd godi collodd reolaeth ar y peiriant ac fe'i lladdwyd yn y ddamwain. Amlosgwyd ei gorff yn Singapore. Mae ei gyfraniad i'r frwydr wedi'i goffau ym Mynwent Militaraidd Singapore, ar gofeb yn Nanga Gaat a nawr yn mro ei febyd yn Neuadd Tal-y-Bont.

Dadorchuddiwyd y plac gan ei gyfaill yn ysgol Ardwyn, Yr Arglwydd Elystan Morgan. Roedd gweddw Mr Morgan, Mrs Buddug Morgan yn bresennol ynghyd â nifer o gyfeillion eraill megis John M Evans. Llanddeiniol a Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail.

Trefnwyd yr achlysur gan Bwyllgor y Neuadd

## Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion – Arbrawf Ŵyn Hyrddod 2014-15



Un o weithgareddau'r Gymdeithas bob blwyddyn yw'r Arbrawf Ŵyn Hyrddod lle mae aelodau'r Gymdeithas yn cael cyfle i anfon rhai o'i ŵyn hyrddod i ffwrdd dros y gaeaf. Eleni daeth 15 o ffermydd i gymryd rhan yn yr arbrawf, gyda 41 o ŵyn. Bydd yr ŵyn yn gaeafu i ffwrdd yn ardal Penllyn ac yn cael eu pwyso'n rheolaidd. Ar ddiwedd yr arbrawf, bydd Hybu Cig Cymru yn mesur dyfnder y cig a'r braster er mwyn rhoi Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV) i'r ŵyn.

Ar ddechrau'r abrawf cafodd yr aelodau gyfle i farnu'r ŵyn cyn mynd i ffwrdd, ac i ddewis yr oen hwrdd mwyaf addawol. Eleni daeth oen hwrdd Dafydd Jones, Ceiro, Ponterwyd i'r brig, ac yn ennill Tarian Rhosgoch. Yn ail, daeth oen hwrdd meibion Dafydd, sef Bryn a Rheinallt Jones, Hirnant, Ponterwyd, gan roi cystadleuaeth dda i'w tad. Yn drydydd, daeth oen hwrdd Enoc a Dewi Jenkins, Tyngraig. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.













# Y Gair Olaf


Ychydig yn ôl, cefais fenthyg "Ein Canrif – Our Century" gan ffrind, sef y gyfrol ar hanes Tal-y-bont a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Henoed Ceulanamaesmawr gyda nawdd y Mileniwm. Roeddwn i bob amser wedi meddwl bod Tal-y-bont yn bentref digon unigryw yng Ngheredigion, os nad trwy Gymru, oherwydd bod yma siop, Swyddfa Bost, salon trin gwallt, dwy dafarn, garej a fferyllfa, heb sôn am fusnesau bach eraill a chrefftwyr yr ardal. Doeddwn i ddim yn meddwl bod yr economi wledig wedi dirywio cymaint yma ag y mae wedi gwneud mewn ardaloedd eraill. Dychmygwch fy syndod felly pan ddarllenais i bennod gan Kathleen Richards yn "Ein Canrif" ar 'Siopau a Busnesau' Talybont a sylweddoli bod dros 30 o siopau yma ar un adeg "yn gwerthu pob peth o binnau bach i hadau gwair, bwydydd anifeiliaid a beiciau". Dros 30 o siopau! Yma, yn Nhal-y-bont!

Do, felly, fe welwyd dirywiad yn Nhal-y-bont er na fu cynddrwg efallai â'r dirywiad mewn rhannau eraill o Gymru. Beth bynnag am hynny bellach, mae hanes difyr o fwrlwm yr hen bentref gennym ar gof a chadw. Pan rwy'n pasio 'Erwau Glas' nawr, ceisiaf ddychmygu sut le oedd 'Walsall Stores'. Wrth fynd heibio Penlôn, rwy'n rhyfeddu bob tro bod lladd-dy wedi bodoli yno ac rwy'n gweld adeilad yr Emporium, sef hen "department store" y pentref, mewn goleuni cwbl newydd!

Diolch i Kathleen a'r rhai a fu'n gyfrifol am baratoi'r gyfrol am addysgu fy siort i ac eraill na chawsant eu magu yn yr ardal, am Dal-y-bont y gorffennol.

Menna Morgan






# Sefydliad y Merched Eglwysfach

Cynhaliodd Sefydliad y Merched Eglwysfach gyfarfod o Grŵp Bedwen Ffederasiwn Ceredigion yn ddiweddar, ble cafwyd adroddiadau bywiog o weithgareddau y chwe mis diwethaf gan bob sefydliad o fewn y grŵp, sef Taliesin a Thalybont.

Siaradwr gwadd y noson oedd y Parchedig David Williams a gyflwynodd hanes difyr y gymuned adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Casglwyd blychau Cymorth Romania gan Brenda Wright, Cadeirydd y Sir er mwyn eu dosbarthu mewn pryd ar gyfer y Nadolig a chwblhawyd y noson gyda bwffe blasus.

Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod gwanwyn yng nghwmni Sefydliad y Merched Tal-y-bont.

**Cyfarfod mis Hydref**

Ar ddechrau mis Hydref cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Barbara Walker a fu'n siarad am hanes Machynlleth. Canolbwyntiodd ar wreiddiau canoloesol y dref. Roedd hanes difyr iawn i'r tafarndai a oedd yn fannau pwysig i drafod busnes stadau lleol, yn ogystal â bod yn fragdai bychain yn gwneud eu cwrw eu hunain.

**Cyngerdd i'w gofio yn yr Ystafell Haearn**

Bu'r grŵp enwog o Chile "Cuncumen" yn perfformio eu cyngerdd olaf yng Nghymru yn yr Ystafell Haearn yn ddiweddar. Arferai dau o aelodau'r grŵp fod yn rhan o grŵp gwreiddiol Victor Jara cyn iddo gael ei ladd. Maen nhw i gyd yn gerddorion gwych a thalentog, ac ar un pwynt mi fu telynorion Cymreig a Chile yn jamio efo'i gilydd.







# Chwaraeon

## Pêl-droed Tal-y-bont

Mae tîm cyntaf Tal-y-bont yn parhau ymhlith y ceffylau blaen yn Adran 1, Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch wedi dechrau gwych i'r tymor ond daeth llwyddiant y tîm i stop yn Aberdyfi ar ddydd Sadwrn 8 Tachwedd wrth i'r bechgyn o Feirion ennill 5-1 yn ail rownd Cwpan J Emrys Morgan. Llai na mis yn ôl roedd Tal-y-bont wedi ennill 2-0 yn Aberdyfi yn y cynghrair, felly roedd y canlyniad y tro hwn yn siomedig. Callum Pritchard sgoriodd i Dal-y-bont. Serch hynny, mae Tal-y-bont yn dal yng nghystadleuaeth Cwpan Len a Julia Newman wedi iddynt drechu 3ydd tîm y Coleg 1-0 mewn gêm glos iawn. Callum Pritchard unwaith eto sgoriodd unig gôl y gêm honno.

Mae Tal-y-bont yn yr ail safle yn y cynghrair o ganlyniad i nifer o fuddugoliaethau da yn ddiweddar. Curwyd Dolgellau 3-1 ac Aberdyfi 2-0 a chafwyd gêm gyfartal bant yn erbyn Padarn United. Mae partneriaeth y blaenwyr Jamie Evans a Callum Pritchard yn effeithiol ac mae Billy Williams yn dangos tipyn o addewid tra bod Mike South yn chwaraewr crefftus yng nghanol y cae.

Nid yw'r ail dîm wedi cael cymaint o hwyl arni yn ddiweddar. Collwyd dwy gêm agos yn erbyn eilyddion Llanilar a Phadarn 2-3 ac 1-4 oedd y sgôr yn erbyn Machynlleth. Serch hynny nod y tîm hwn, sydd dan ofal Richard Jones a Keith Hughes, yw datblygu chwaraewyr ifanc lleol ar gyfer y tîm cyntaf.



Smonach yn amddiffyn Padarn yn y gêm yn erbyn Tal-y-bont, gydag Ows Jones (ar y dde) yn chwilio am ei gyfle.



Andy Humphreys yn penio at y gôl yn erbyn y Coleg, gyda Jamie Evans yn gobeithio manteiso ar y briwsion.

## Hanner Marathon



Cwblhaodd William Metcalfe, Nirvana, Taliesin ras Hanner Marathon Caerdydd a hynny mewn 2 awr 31 eiliad. Cafodd gwmni a chefnogaeth ei fab Wayne ar hyd y daith.Roedd yn rhedeg i godi arian at Sefydliad Hypercolosterolemia Etifeddol ac at Marwolaeth Sydyn y Galon yn yr Ifanc ( sefydliad sydd yn addysgu ac yn sgrinio pobl ifanc). Dymuna ddiolch o galon i bawb a'i gefnogodd yn ariannol ac er nad yw'r arian i gyd wedi ei gasglu bydd y swm terfynol yn agos i £1400.

## Rhwyfo

Llongyfarchiadau i Ffion Nelmes sy'n aelod o Glwb Rhwyfo Aberystwyth. Roedd Ffion yn aelod o'r tîm rhwyfo i ferched o dan 16 oed a daeth y criw yn gyntaf ym mhob ras rhwyfo y tymor yma. Daethont ar frig tair cynghrair sef Cynghrair Gogledd Cymru, De Chymru a'r Cyd-Gynghrair. Cyflwynwyd tariannau iddynt yng nghinio blynyddol Cymdeithas Rhwyfo Môr Cymru yng Ngwesty'r Marine ym mis Medi.




**Ioga**

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
**Sue Jones-Davies**
**01970 624658**

K Hughes

**Plymio a Gwresogi**
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235